# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

Lle a Chynaliadwyedd
Mehefin 2023

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Hanes y Ddogfen

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd |
| **Pwrpas** | Dogfen gyfreithiol sydd ei hangen o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1925 |
| **Perchennog** | Is-adran Lle a Chynaliadwyedd CSC |
| **Crëwyd gan** | Uned Rheoli Gwybodaeth |
| **Cymeradwywyd gan** | Cyngor Sir<br>https://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&MId=6445 |
| **Dyddiad** | 21/06/2023 |
| **Amlder Adolygu** | Yn ôl yr angen |

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Nodiadau / Newidiadau |
|---|---|---|---|
| V0.1 | Ebrill 2019 | Emily Dent / Nia Tommason | Drafft Cychwynnol |
| V0.2 | Medi 2019 | Emily Dent / Nia Tommason | Gwelliannau a diweddariadau cychwynnol |
| V0.3 | Hydref 2021 | Emily Dent / Myfanwy Jones / Owain Enoch / Rachel Jones | Gwelliannau a diweddariadau ychwanegol |
| V0.4 | Mai 2022 | Emily Dent | Mân ddiwygiadau golygyddol |
| V0.5 | Mehefin 2023 | Emily Dent | Graddfa'r taliadau o 01.04.2023 |

# Cynnwys

**1 Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo**
1.1 Diben y Polisi
1.2 Cyflwyniad
1.3 Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg
1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
1.5 Y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd

**2 Arweiniad i ymgeiswyr**
2.1 Pryd i wneud cais?
2.2 Sut i wneud cais?
2.3 Beth i'w gyflwyno?

**3 Graddfa'r Taliadau**
3.1 Ffïoedd ymgeisio

**4 Enwi a Rhifo Strydoedd Datblygiadau Newydd**
4.1 Egwyddorion Cyffredinol
4.2 Defnyddio Teitlau Marchnata Answyddogol
4.3 Themâu Arfaethedig
4.4 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo Strydoedd
4.5 Nodi strydoedd newydd a phresennol
4.6 Confensiynau a ddefnyddir ar gyfer strydoedd presennol
4.7 Confensiynau a ddefnyddir ar gyfer strydoedd newydd

**5 Proses ymgeisio**
5.1 Enwau Strydoedd Newydd
5.2 Cynigion nad ydynt yn ymwneud ag enw stryd newydd
5.3 Enwi eiddo presennol
5.4 Cyfeiriad newydd ar gyfer eiddo newydd sengl
5.5 Dewis enw newydd addas
5.6 Perchnogaeth eiddo
5.7 Dechrau defnyddio cyfeiriad newydd
5.8 Newid llunwedd datblygiad
5.9 Addasu ysgubor, tŷ allan neu adeilad adfeiliedig
5.10 Anecsau
5.11 Tir, stablau, tyddynnod, rhandiroedd, a thyddynnod heb breswylfa
5.12 Addasu eiddo yn fflatiau neu'n unedau
5.13 Addasu neu isrannu eiddo
5.14 Eiddo Masnachol
5.15 Ailenwi stryd ar gais preswylydd
5.16 Ystyriaethau eraill ac ymholiadau cyffredin
5.17 Hysbysiad o gyfeiriad newydd neu gyfeiriad wedi'i newid i bartneriaid mewnol ac allanol

# Atodiadau

Atodiad 1 Deddfwriaeth
Atodiad 2 Cynllun Dirprwyo
Atodiad 3 Arwyddion Stryd

# Ffigurau

Ffigur 1 - Lleiniau newydd ar strydoedd presennol a newydd - mynediad o stryd bresennol
Ffigur 2 - Lleiniau newydd ar strydoedd presennol a newydd - sawl pwynt mynediad ar wahanol strydoedd
Ffigur 3 - Lleiniau newydd sy'n defnyddio rhifau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y system rifo bresennol
Ffigur 4 - Lleiniau newydd sy'n defnyddio rhifau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y system rifo bresennol
Ffigur 5 - Lleiniau newydd sy'n defnyddio rhifau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y system rifo bresennol
Ffigur 6 - Lleiniau newydd wedi'u henwi ar stryd bresennol lle nad yw rhifo'n ymarferol
Ffigur 7 - Lleiniau newydd wedi'u henwi ar stryd bresennol lle nad oes rhifau
Ffigur 8 – Rhifo ar hyd stryd newydd
Ffigur 9 – Rhifo ar hyd stryd fach
Ffigwr 10 - Rhifo yn ddilynol
Ffigwr 11 - Proses lle mae enw stryd newydd yn cael ei greu
Ffigwr 12 - Proses lle NAD YW enw stryd newydd yn cael ei greu

# 1. Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo

## 1.1 Diben y Polisi

1.1.1 **Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith er mwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin weithredu'r swyddogaeth Enwi Strydoedd a Rhifo yn effeithiol ac yn effeithlon er budd trigolion Sir Gaerfyrddin, y gwasanaethau brys, busnesau ac ymwelwyr â'r sir.**

1.1.2 Nod y ddogfen hon yw darparu cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a pherchnogion eiddo presennol wrth ystyried datblygiadau newydd, addasu eiddo neu leiniau mewnlenwi unigol, yn ogystal â newid enw eiddo presennol. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i Gynghorau Tref neu Gynghorau Cymuned ynglŷn â'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu'r swyddogaeth Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo a'r protocolau ar gyfer pennu'r enwau swyddogol ar strydoedd a rhifau eiddo.

1.1.3 Y prif bwrpas yw creu cyfeiriadau sy'n rhesymegol ac yn gyson, a sicrhau bod modd dod o hyd i eiddo yn gyflym ym mhob sefyllfa. Mae hyn yn bwysig gan fod angen ffordd effeithlon o ddod o hyd i eiddo a chyfeirio atynt ar amryw o sefydliadau, gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

1.1.4 Mae enwi a rhifo strydoedd yn agwedd bwysig ar fywyd modern a gymerir yn ganiataol yn aml, ond mae'n ddigon pwysig fel bod angen deddfwriaeth i orfodi gofynion y Llywodraeth a Llywodraeth Leol yn y maes hwn.

1.1.5 Efallai bod diffyg ymwybyddiaeth (yn arbennig ymhlith y cyhoedd) o ran y gofyniad i fynd drwy broses ar gyfer newid enw eiddo. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y polisi hwn, bydd y Cyngor yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad hwn. Dylid nodi bod Adran 1.2 o'r polisi hwn yn ei gwneud yn glir pam ei bod yn bwysig gwneud y broses yn gywir.

1.1.6 Caiff y gwasanaeth enwi a rhifo strydoedd ei ddarparu o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor, o fewn portffolio'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod y polisi hwn yn ceisio gwneud darpariaeth ar gyfer ymgynghori â chynrychiolwyr etholedig / cymunedol pan fo hynny'n briodol / perthnasol.

1.1.7 Dull cyffredinol y Cyngor yw ceisio gweithio gydag ymgeiswyr wrth weithredu'r swyddogaeth Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo drwy ddull meithrin consensws. Dylid nodi bod y gwasanaeth Lle a Chynaliadwyedd yn y broses o lansio siarter cwsmeriaid ar hyn o bryd. Y canlyniad a ddymunir yw penderfyniadau amserol a chyson lle mae cwsmeriaid yn cael profiad da. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar ymgeiswyr i weithio gyda swyddogion er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn – gan gynnwys darparu cynlluniau clir a chywir a thrwy gyflwyno cynigion sy'n cyd-fynd â'r polisi hwn – yn arbennig o ran parchu a dathlu ffabrig ieithyddol a hanesyddol y Sir.

## 1.2 Cyflwyniad

1.2.1 **Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin bwerau statudol i sicrhau bod pob stryd ac eiddo wedi'u henwi a'u rhifo'n gywir o fewn y sir. Mae'r pwerau hyn yn deillio o Adrannau 17 i 19 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (1925).**

1.2.2 Mae Enwi a Rhifo Strydoedd yn swyddogaeth bwysig gan ei fod yn caniatáu i'r Cyngor gynnal a diweddaru'r Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer defnyddio pob cyfeiriad ym Mhrydain. Mae hyn yn galluogi'r canlynol:-

- Y Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo yn effeithlon
- Post i'w ddosbarthu'n effeithloPost i'w ddosbarthu'n effeithlonn
- Ymwelwyr i ddod o hyd i'w cyrchfan
- Cwmnïau cyfleustodau i gysylltu eu gwasnaethau ar ôl i safle gael cyfeiriad post swyddogol
- Dosbarthu nwyddau a gwasanaethau'n ddibyniadwy gan gwmnïau
- Cadw cofnodion Darparwyr Gwasanaethau mewn modd effeithlon
- Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol. Er enghraifft, yswiriant, ststws credyd, derbyn contractau
- Mae llawer o drafodion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag eiddo yn gallu cael eu dal yn ôl hyd nes eu bod yn cael eu nodi gan enw stryd, enw tŷ neu rif, er enghraifft.

1.2.3 Mae'r polisi enwi a rhifo strydoedd yn sefydlu'r broses a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer y gweithgareddau canlynol:-

- Newid enw tŷ
- Ychwanegu Enw at Eiddo sydd wedi'i rifo eisoes
- Enwi neu Rifo Tai
- Datblygiad gydag enw stryd newydd
- Addasu Eiddo yn Fflatiau neu'n Unedau
- Diwygio atodlen y datblygiad datblygu a gyhoeddwyd eisoes
- Ailenwi stryd ar gais preswylydd
- Enwi ffordd lle nad oes enw yn bodoli
- Cadarnhau cyfeiriad swyddogol
- Ychwanegu neu newid enw masnachol ar safle busnes.
- Cais i ymchwilio i unrhyw anghysondeb o ran cyfeiriad

## 1.3 Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg

1.3.1 **Fel Awdurdod Lleol yng Nghymru, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ddarostyngedig i'r darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n deddfu'r nod o greu *'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.* Rhaid i ni hefyd ystyried strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg' a'r dull hirdymor o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

1.3.2 Yn ogystal â sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg, rhoddodd Mesur y Gymraeg statws swyddogol i'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu, yng Nghymru, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y mesur hefyd yn sefydlu'r canlynol:

- Rhoi pwerau i'r Comisiynydd osod Safonau ar sefydliadau
- Rheoleiddio sefydliadau, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau
- Hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg

1.3.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn credu y dylai adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu wrth gyflwyno gwasanaethau dwyieithog effeithiol i'r gymuned. Gall enwau strydoedd ac eiddo wneud cyfraniad gweledol sylweddol i'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn nodwedd weladwy o'r Sir. Mae hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth, a hanes yr ardal drwy ddefnyddio enwau sy'n adlewyrchu'r agweddau hyn.

1.3.4 Gan fod gan y Cyngor yr hawl i benderfynu ar enwau strydoedd newydd, mae'n cydnabod pwysigrwydd rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg a'i hyrwyddo, a'r polisi hwn mewn perthynas ag enwau strydoedd ac eiddo newydd felly fydd hyrwyddo a mabwysiadu enw **Cymraeg** sy'n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal.

1.3.5 Byddwn yn rhoi arweiniad a chymorth i ddatblygwyr ar fabwysiadu enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd. Ni fyddwn yn cefnogi newid enw eiddo pe byddai'n arwain at newidiadau neu ddileu enw sydd o bwys hanesyddol neu ddiwylliannol a byddwn yn rhoi cyngor i'r ymgeisydd a'i annog i ail-ystyried y newid arfaethedig.

1.3.6 Ar gyfer datblygiadau, enwau strydoedd, enwau lleoedd a nodweddion daearyddol hanesyddol, lle mai'r gwahaniaeth rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o enw a stryd yw'r sillafiad yn unig, byddwn yn defnyddio'r fersiwn Gymraeg.

1.3.7 Yn achos pob stryd bresennol lle mae angen arwyddion enw stryd ychwanegol neu newydd, bydd y cyfieithiad Cymraeg yn cael ei ychwanegu i'r arwydd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfieithiad Cymraeg yn ffurfio rhan o enw swyddogol y stryd oni chaiff ei roi drwy'r weithdrefn Ailenwi Strydoedd.

1.3.8 Yn achos enwau strydoedd hanesyddol, ni fydd unrhyw gyfeiriad hanesyddol yn enw'r stryd yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg oni bai bod yna fersiwn Gymraeg.

1.3.9 Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldebau statudol i gadw rhestrau diweddar a chywir o enwau trefi, pentrefi, cymunedau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei restrau o safon uchel a bydd, mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg, sydd â chyfrifoldeb am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg, yn cynnal archwiliad o'r rhestrau a gedwir ganddo i sicrhau eu bod yn cael eu safoni lle bo angen. Lle mae gan yr enwau presennol arwyddocâd hanesyddol neu ieithyddol penodol, ni chefnogir ailenwi.

## 1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1.4.1 Holl bwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gosod saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae sicrhau bod enwau strydoedd yn Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu'r dreftadaeth leol, gydag enwau ar gyfer datblygiadau newydd sydd â chysylltiad hanesyddol, diwylliannol, ac ieithyddol, yn chwarae rhan bwysig wrth wireddu'r nod llesiant hwn.

## 1.5 Y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd

### Pwy sy'n gyfrifol am enwi a rhifo strydoedd?

1.5.1 Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldebau a phwerau statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiadol, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor hefyd bwerau dewisol ychwanegol i roi rhif neu enw ar eiddo.

1.5.2 Dylid nodi nad oes gan y Post Brenhinol unrhyw gyfrifoldebau na phwerau statudol i enwi stryd nac i enwi, rhifo, ailenwi neu ail-rifo eiddo. Unig gyfrifoldeb y Post Brenhinol yw neilltuo côd post wedi i Gyngor Sir Caerfyrddin ei hysbysu o fanylion cyfeiriad newydd neu ddiwygiedig.

1.5.3 Mae'r Cyngor fel yr awdurdod enwi a rhifo statudol yn ymgymryd â gwiriadau priodol yn y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol ac yn ymgynghori a chysylltu'n ehangach â'r Post Brenhinol sy'n gyfrifol am y Ffeil Cyfeiriad Côd Post mewn perthynas ag eiddo a/neu enwau strydoedd newydd. Mae hyn yn lleihau dyblygu a dryswch posibl ac yn sicrhau bod dull cyson a diamwys yn cael ei fabwysiadu ar draws Sir Gaerfyrddin.

### Rhifo Strydoedd - Cyfeiriad heb ei gofrestru

1.5.4 Os nad yw eiddo wedi'i "gofrestru" bydd y perchennog/preswylydd yn ei chael hi'n anodd cael nwyddau a gwasanaethau o amrywiaeth o ffynonellau, megis gwneud cais am gerdyn credyd neu nwyddau a brynir drwy'r post.

1.5.5 Mae pob sefydliad yn prynu eu cronfeydd data cyfeiriadau gan y Post Brenhinol. Os nad yw cyfeiriad yn ymddangos ar y gronfa ddata a gedwir gan y Post Brenhinol, dehonglir nad yw'r eiddo'n bodoli.

1.5.6 Pan gaiff eiddo ei enwi'n swyddogol neu ei rifo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, hysbysir y Post Brenhinol fel rhan o'r broses. Felly, mae'n hanfodol bod pob cais am rifo strydoedd yn cael ei wneud i Gyngor Sir Caerfyrddin.

## Sut ydw i'n cysylltu â'r gwasanaeth?

1.5.7 Gweithredir y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd gan yr Adain Rheoli Gwybodaeth, o fewn yr is-adran Lle a Chynaliadwyedd, a dyma'r manylion cyswllt:

Yr oriau arferol yw: 9.00 – 17.00 Dydd Llun – Dydd Iau / 9.00 – 16.30 Dydd Gwener.

### Y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd

**Cyfeiriad:** Swyddfeydd y Cyngor
Heol Cilgant
Llandeilo
SA19 6HW

**Rhif Ffôn:** 01558 825332

**E-bost:** snn@sirgar.gov.uk
**Gwefan:** https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/enwi-a-rhifo-strydoedd/

# 2. Arweiniad i Ymgeiswyr

## 2.1 Pryd i wneud cais?

2.1.1 Dylai ceisiadau ar gyfer gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gael eu gwneud gan:

- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ychwanegu enw at eiddo sydd eisoes wedi'i rifo yn unig
- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ailenwi eiddo sydd eisoes wedi'i enwi
- Unigolion neu ddatblygwyr yn adeiladu eiddo newydd sy'n cynnwys eiddo preswyl newydd, adeiladau masnachol, unedau diwydiannol ac ati
- Unigolion neu ddatblygwyr sydd am ddiwygio cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses enwi a rhifo ffurfiol
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n ymgymryd â gwaith addasu ar eiddo presennol a fydd yn arwain at greu eiddo preswyl newydd neu safleoedd busnes. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau presennol sydd wedi'u rhannu'n fflatiau neu'n swyddfeydd, ysguboriau wedi'u haddasu'n breswylfeydd a rhannu unedau masnachol
- Preswylwyr sy'n dymuno ailenwi stryd
- Unigolion a busnesau sydd am gadarnhau cyfeiriad

2.1.2 Dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r Cyngor ar y cyfle cyntaf i osgoi oedi posibl. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i ganiatâd cynllunio ffurfiol a/neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer y cynnig gael ei ganiatáu.

## 2.2 Sut i wneud cais?

2.2.1 Lawrlwythwch y ffurflen gais berthnasol ar-lein:
www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/enwi-a-rhifo-strydoedd

Ceir 8 gwahanol ffurflen gais bapur ar gyfer Enwi a Rhifo Strydoedd:

| Ffurflen | Categori Cais |
|---|---|
| **SNN1** | Ailenwi eiddo sy'n bodoli eisoes / Ychwanegu enw at eiddo sydd wedi'i rifo eisoes |
| **SNN2** | Un breswylfa newydd |
| **SNN3** | Datblygiad **HEB** enwau strydoedd [Preswyl a Masnachol] |
| **SNN4** | Datblygiad gyda enw stryd **NEWYDD** [Preswyl a Masnachol] |
| **SNN5** | Newid i gynllun datblygiad [Preswyl a Masnachol] |
| **SNN6** | Addasu eiddo yn fflatiau neu'n unedau [Preswyl a Masnachol] |
| **SNN7** | Ailenwi stryd ar gais preswylwyr |
| **SNN8** | Cofrestriad swyddogol o Eiddo Presennol |

## 2.3 Beth i'w gyflwyno?

2.3.1 Rhaid i bob cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gynnwys:

- Ffurflen Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i chwblhau
- Cynllun lleoliad ar raddfa briodol nad yw'n llai na 1:1250, ac yn achos datblygiadau newydd, cynllun sy'n nodi safle eiddo mewn perthynas ag amgylchoedd daearyddol.
- Cynllun mewnol ar gyfer datblygiadau sy'n cael eu rhannu ar lefel uned neu lawr, er enghraifft, bloc o fflatiau neu unedau masnachol, diwydiannol.
- Rhaid marcio'r brif fynedfa i bob rhan neu floc yn glir.
- Mae angen y ffi briodol ar gyfer y gwasanaeth enwi a rhifo strydoedd penodol.

# 3. Graddfa'r taliadau

## 3.1 Ffïoedd ymgeisio

3.1.1 Mae'r taliadau a amlinellir isod yn gyfredol o 1 Ebrill 2023. Mae'r taliadau'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Ni chodir TAW ar gyfer taliadau am wasanaethai enwi a rhifo strydoedd.

| Tasg | Ffi | |
|---|---|---|
| Newid enw tŷ | £50 | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau a hysbysu'r Post Brenhinol, sefydliadau mewnol ac allanol, cadarnhad cwsmer, amser swyddogion ac adnoddau. |
| Ychwanegu enw at eiddo sydd wedi'i rifo eisoes | £50 | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau a hysbysu'r Post Brenhinol, sefydliadau mewnol ac allanol, cadarnhad cwsmer, amser swyddogion ac adnoddau. |
| Enwi tŷ neu osod rhif ar gyfer **un annedd** | £100 | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau a hysbysu'r Post Brenhinol, sefydliadau mewnol ac allanol, cadarnhad cwsmer, amser swyddogion ac adnoddau. |
| Datblygiad **HEB** enw stryd [Preswyl a Masnachol] | £100 ar gyfer un eiddo + £40 fesul pob llain ychwanegol | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau, cynhyrchu atodlenni yn nodi'r rhif perthnasol i'r llain, a hysbysu'r Post Brenhinol, sefydliadau mewnol ac allanol, cadarnhad cwsmer, amser swyddogion ac adnoddau. |
| Datblygiad gydag enw stryd **NEWYDD** [Preswyl a Masnachol] | £175 fesul stryd **+** £40 fesul pob llain ychwanegol | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau, yr ymgynghoriadau ag Aelod(au) Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned, hysbysiad/ymweliad safle, a chynhyrchu atodlenni sy'n nodi'r rhif perthnasol i'r llain, hysbysu'r Post Brenhinol, sefydliadau mewnol ac allanol, cadarnhad cwsmer, amser swyddogion ac adnoddau. |

| Tasg | Ffi | |
|---|---|---|
| Addasu Eiddo yn Fflatiau neu'n Unedau [Preswyl a Masnachol] | £50 **+** £30 fesul pob cyfeiriad ychwanegol sydd ei angen | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau, cynhyrchu atodlenni sy'n nodi'r rhif perthnasol i'r fflat/uned, a hysbysu'r Post Brenhinol, sefydliadau mewnol ac allanol, cadarnhad cwsmer, amser swyddogion ac adnoddau. |
| Diwygio atodlen y datblygiad a gyhoeddwyd eisoes yn dilyn newidiadau i'r llain gan y datblygwr | £50 **+** £30 fesul pob cyfeiriad ychwanegol sydd ei angen | Mae'n cynnwys yr ail-gynllunio, diwygio gwybodaeth o ran y plot a'r manylion post, hysbysu'r Post Brenhinol, y gwasanaethau brys, sefydliadau mewnol ac allanol, amser swyddogion ac adnoddau eraill. |
| Ailenwi'r stryd ar gais preswylwyr **neu** Enwi ffordd lle nad oes enw yn bodoli | £175 **+** £40 fesul eiddo **+** chostau cyfreithiol a chostau gosod arwydd enw stryd newydd yn ei le | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau, yr ymgynghoriadau a'r hysbysiadau i breswylwyr a sefydliadau mewnol ac allanol y cyngor gan gynnwys y Post Brenhinol a'r gwasanaethau brys, amser swyddogion ac adnoddau. |
| Darparu cadarnhad o ran y cyfeiriad swyddogol i'r cwsmer, y cyfreithwyr a'r trawsgludwyr. | £35 | Mae'n cynnwys cost yr archwiliadau (hanesyddol), amser swyddogion ac adnoddau. |
| Ychwanegu neu newid enw masnachol ar safle busnes. | Dim ffi | Mae hyn oherwydd ei fod er budd y busnesau a'r sefydliadau allanol gan gynnwys y Post Brenhinol i gael y wybodaeth ddiweddaraf. |
| Cais i ymchwilio i unrhyw anghysondeb o ran cyfeiriad | Dim ffi | Mae hyn oherwydd ei fod er budd y trigolion a'r gwasanaethau brys fod yr anghysondebau yn cael eu cywiro. |
| Cyhoeddi gwybodaeth ddiwygiedig am y cyfeiriad yn dilyn gwall ar gronfa ddata'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol neu Ffeil Cyfeiriad Côd Post y Post Brenhinol. | Dim ffi | Os bydd gwall, nid yw'n rhesymol i godi tâl er mwyn cywiro cyfeiriad ar y gronfa ddata, heblaw pan fod y broblem wedi codi o ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith bod datblygiad ar waith sydd heb ganiatâd cynllunio a/neu ganiatâd Rheoliadau Adeiladu angenrheidiol. |

# 4. Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer Datblygiadau Newydd

## 4.1 Egwyddor Gyffredinol

4.1.1 Mae gan Sir Gaerfyrddin gefndir diwylliannol, ieithyddol a hanesyddol pwysig ac felly er mwyn sicrhau bod y dreftadaeth hon yn cael ei chadw, bydd ffafriaeth yn cael ei rhoi i gynlluniau enwi sydd â chyd-destun hanesyddol a lleol. Dylid cyfeirio at adnoddau priodol, megis y Rhestr o enwau Lleoedd Hanesyddol, hefyd.

4.1.2 Os na ellir sefydlu cysylltiad hanesyddol yn uniongyrchol â'r tir sy'n cael ei ddatblygu, yna gellir archwilio ardaloedd cyfagos am syniadau.

4.1.3 Os na ellir pennu cyd-destun hanesyddol na lleol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd neu adeiladau, gellir awgrymu thema. Unwaith eto, dylid cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw thema arfaethedig yn bodloni'r protocolau a gaiff eu cynnwys yn y ddogfen hon.

4.1.4 Ni fydd enwau strydoedd newydd yn cael eu rhoi ar ddatblygiadau newydd pan fydd modd cynnwys datblygiadau o'r fath mewn modd boddhaol yng nghynllun rhifo presennol y stryd sy'n darparu mynediad.

4.1.5 Gall y Cyngor Tref/Cymuned a'r Cynghorydd Sir ar gyfer yr ardal ddefnyddio eu gwybodaeth leol a hanesyddol am yr ardal i benderfynu ar unrhyw themâu a awgrymir a/neu enwau strydoedd sy'n addas ar gyfer yr ardal. Gall y Cyngor Tref/Cymuned a'r Cynghorydd Sir awgrymu themâu a/neu enwau strydoedd eraill a allai fod â chyd-destun hanesyddol a lleol mwy perthnasol. Unwaith eto, bydd angen i'r awgrymiadau hyn fodloni'r protocolau sydd i'w cael yn y ddogfen hon a bydd y broses ymgynghori yn dechrau eto.

4.1.6 Gall y datblygwyr eiddo newydd sy'n cyflwyno cais i'r gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd ofyn i'r Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir awgrymu unrhyw themâu a/neu enwau strydoedd ar gyfer datblygiad newydd.

4.1.7 Er y rhoddir pob cyfle i unigolion neu fusnesau sy'n awgrymu themâu ar gyfer datblygiad newydd a/neu enwau strydoedd, gall y Cyngor gyflwyno hysbysiad o wrthwynebiad o dan Adran 4.1.7 o'r Ddeddf. Caiff y person neu'r busnes sy'n cynnig enw'r stryd, o fewn un diwrnod ar hugain ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno, apelio yn erbyn y gwrthwynebiad i'r Llys Ynadon.

## 4.2 Defnyddio Teitlau Marchnata Answyddogol

4.2.1 Ni fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn mabwysiadu teitlau neu themâu 'marchnata' answyddogol a ddefnyddir gan y datblygwyr ar gyfer gwerthu eiddo newydd oni chytunwyd ar gyd-destun hanesyddol neu leol ymlaen llaw, ac ar y ddealltwriaeth glir mai sail yn unig i'r cynllun enwi strydoedd cymeradwy fydd y thema.

4.2.2 Ni chaniateir mabwysiadu teitlau 'marchnata' wrth greu enwau deniadol 'answyddogol' ar gyfer ardal leol neu bentref. Y cyngor felly yw y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio enwau datblygiad at ddibenion marchnata os nad yw'r enw wedi cael ei awdurdodi.

4.2.3 Dylid nodi mewn llenyddiaeth a ddosberthir i ddarpar brynwyr nad yr enwau marchnata yw enw swyddogol y stryd, eu bod yn amodol ar gymeradwyaeth ac felly y gallent newid.

4.2.4 Dylai ddatblygwyr sicrhau bod prynwyr a meddianwyr eiddo yn defnyddio'r cyfeiriad swyddogol ac nid enw'r datblygiad. Yn hanesyddol, mae hon yn broblem sydd wedi bod yn digwydd dro ar ôl tro a gall arwain at rwystredigaeth a siom. Rhaid i ddatblygwyr sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael ei farchnata mewn modd camarweiniol ac nad yw enw'r datblygiad yn cael ei ddefnyddio yn y cyfeiriad swyddogol.

## 4.3 Themâu Arfaethedig

4.3.1 Dylai datblygwr/Cynghorydd Sir/Cyngor Tref/Cymuned sy'n cynnig thema ar gyfer enwi a rhifo strydoedd, neu enwi'r eiddo mewn cynllun datblygu newydd, ystyried y canlynol:

a) Dylai fod gan yr enw(au) a awgrymir ar gyfer stryd neu adeilad gyd-destun hanesyddol neu leol profedig a chyswllt uniongyrchol â safle'r datblygiad neu'r ardal gyfagos

b) Nid enw person o fewn cof byw fydd yr enw a awgrymir ar gyfer stryd neu eiddo. Mae enwi strydoedd ar ôl unigolion yn gallu bod braidd yn gynhennus ac mewn sawl ystyr yn oddrychol, felly ni enwir unrhyw stryd nac eiddo ar ôl person sydd naill ai'n byw heddiw neu a oedd yn byw yn y gorffennol agos.

c) Yr unig eithriad fydd mewn achosion lle cyfeirir at leoliadau daearyddol hanesyddol fel enwau priod ee: Parc Kimberley, Coed John ac ati

d) Ni fydd y cynllun enwi strydoedd neu eiddo a awgrymir yr un fath ag unrhyw enwau presennol yn Sir Gaerfyrddin neu'n debyg iddynt, er mwyn osgoi dryswch posibl

e) Lle na ellir sefydlu cyd-destun hanesyddol neu leol, lle bwriedir datblygu'r tir a chreu rhwydwaith o strydoedd, gall y datblygwr/Cynghorydd Sir/Cyngor Tref/Cymuned awgrymu thema, gyda rhesymau priodol, i'w hystyried.

f) Dylid osgoi gwahaniaethu yn ôl y rhagddodiad o fewn yr un ardal neu ardal gyfagos, e.e. Rhodfa Afallen a Heol Afallen.

g) Dylid osgoi enwau a awgrymir ar gyfer strydoedd neu adeiladau sy'n anaddas yn esthetig. Er enghraifft, Heol y Gwaith Nwy, Tŷ'r Domen ac ati

h) Ni fydd enwau a allai arwain at anawsterau sillafu yn cael eu derbyn.

i) Lle bynnag y bo modd, dylai enw arfaethedig fod ag arwyddocâd hanesyddol profedig i'r tir y bwriedir ei ddatblygu. Argymhellir bod cyngor yn cael ei geisio gan grwpiau hanes neu grwpiau diddordeb lleol.

j) Dylid osgoi enwau a awgrymir ar strydoedd neu adeiladau y gellir eu camddehongli'n fwriadol. Er enghraifft, yn Saesneg, Hoare Road, Typple Avenue, Quare Street ac ati

k) Ni fydd enwau a awgrymir ar gyfer strydoedd neu eiddo y gellid eu hystyried neu eu dehongli fel rhai anweddus, hiliol neu a allai fynd yn groes i unrhyw agwedd ar bolisïau cyfle cyfartal Cyngor Sir Caerfyrddin yn dderbyniol.

l) Os oes modd dylid osgoi enwau atodol, e.e. rhes o adeiladau o'r enw 'Teras ...' ar ffordd sydd eisoes wedi'i henwi.

m) Ni fydd y rhif 13 yn cael ei hepgor o'r cynlluniau rhifo eiddo.

### 4.3.2 Gellir cael cyngor neu arweiniad ynghylch cyd-destun hanesyddol neu leol drwy:

- Gyfathrebu â'r Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned/Cynghorydd Sir
- Mynd i'n gwefan yn: www.sirgar.llyw.cymru/snn
- Ymweld â gwefan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/llyfrgelloedd-ac-archifau/
- Gweld hen fapiau o Sir Gaerfyrddin ar-lein
- Ewch i wefan Cadw i gael gwybodaeth am gofnodion amgylchedd hanesyddol: Cofnodion amgylchedd hanesyddol | Cadw (llyw.cymru)
- Ewch i wefan Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol
- Ewch i wefan Comisiynydd y Gymraeg i weld 'Rhestr o Enwau Lleoedd Cymraeg Safonol'

## 4.4 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo Strydoedd

### Enwau Strydoedd

4.4.1 Dylai pob enw stryd newydd ddechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol yn achos cyfieithiadau Cymraeg (olddodiad yn achos cyfieithiadau Saesneg) a gymhwysir yn y cyd-destun canlynol, fodd bynnag nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac mewn amgylchiadau eithriadol gellir caniatáu dewisiadau eraill.

| | |
|---|---|
| Rhodfa (Avenue) | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Cylch (Circle) | ar gyfer ffyrdd sydd â'r un man cychwyn a gorffen |
| Clôs (Close) | ar gyfer ffordd bengaead (cul-de-sac) yn unig |
| Comin (Common) | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cwrt neu Llys (Court) | ar gyfer ffordd bengaead (cul-de-sac) a blociau preswyl yn unig |
| Cilgant (Crescent) | ar gyfer ffordd ar siâp cilgant |
| Tywyn (Dene) | ar gyfer ffyrdd â chysylltiad hanesyddol â dyffryn coediog |
| Rhodfa (Drive) | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Pen (End) | ar gyfer ffordd bengaead (cul-de-sac) yn unig |
| Gerddi (Gardens) | ar gyfer ffyrdd preswyl (cyn belled nad oes unrhyw ddryswch gyda mannau agored lleol) |
| Gelli (Grove) | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Rhiw (Hill) | ar gyfer ffordd ar lethr yn unig |
| Lôn (Lane) | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa mewn ardal wledig neu mewn amgylchiadau priodol |
| Dol (Mead) | fel dewis amgen i'r uchod |
| Dol (Meadow) | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa mewn ardal wledig |
| Stablau (Mews) | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Parêd (Parade) | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Parc (Park) | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Llwybr (Path) | ar gyfer ffyrdd i gerddwyr |
| Maes (Place) | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Dyfroedd (Reach) | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol – |
| Crib (Ridge) | ar gyfer ffordd ar lethr yn unig |
| Bryn (Rise) | ar gyfer ffordd ar lethr yn unig |
| Heol (Road) | Ar gyfer unrhyw ffordd fawr neu dramwyfa |
| Rhes (Row) | ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Sgwâr (Square) | ar gyfer sgwâr yn unig |
| Stryd (Street) | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Teras (Terrace) | ar gyfer teras o dai ond NID fel enw atodol o fewn stryd arall sydd ag enw swyddogol |
| Gwel y ……. (View) | ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Rhodfa (Walk) | ar gyfer ffyrdd i gerddwyr |
| Ffordd (Way) | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Glanfa (Wharf) | ar gyfer ffyrdd sy'n gyfochrog â dyfrffyrdd mordwyadwy neu'n agos iddynt |

4.4.2 Bydd llawer o'r uchod yn achosi treiglad pan fydd enw ffordd yn cael ei ychwanegu ac felly bydd angen i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd anfon yr enw at gyfieithydd proffesiynol i sicrhau ei fod yn gywir.

# Trefn Rhifo Eiddo

Bydd y protocolau canlynol yn berthnasol i gynlluniau datblygu newydd:

4.4.3 Dylid nodi mewn dogfennau sy'n cael eu dosbarthu i ddarpar brynwyr y gallai'r cynlluniau rhifo dros dro newid os bydd y datblygwr yn ychwanegu lleiniau y mae angen rhoi cyfeiriad iddynt ar ôl i'r Enwau Strydoedd a'r Rhifau gwreiddiol gael eu neilltuo i'r datblygiad.

4.4.4 Ar ôl i rif gael ei roi i unrhyw eiddo yn Sir Gaerfyrddin, ni ellir byth ei ddileu. Mae hyn yn berthnasol i'r holl eiddo yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys eiddo â rhifau ond nad ydynt ar stryd sydd â rhifau. Gellir ychwanegu enwau ond ni allant byth gymryd lle'r rhif.

4.4.5 Bydd eiddo, yn enwedig y rheiny ar safleoedd cornel, yn cael eu rhifo neu eu henwi yn ôl y stryd lle y mae'r brif fynedfa. Ni chaniateir newid enwau neu rifau eiddo er mwyn cael cyfeiriad mwy mawreddog neu ddymunol, neu er mwyn osgoi cael cyfeiriad yr ystyrir bod ganddo gysylltiadau annymunol.


4.4.6 Gall unrhyw berson sy'n teimlo ei fod wedi cael cam o ran y gorchymyn a fwriedir (hysbysiad safle / ymgynghoriad) apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn gorchymyn o'r fath o fewn 21 diwrnod ar ôl dyddiad yr 'Hysbysiad o fwriad i gyflwyno gorchymyn enwi strydoedd'.

4.4.7 **Y gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch enwi neu rifo, a chaiff y cyfeiriad swyddogol ei gadarnhau ar ôl i gais gael ei wneud. Dim ond ar ôl i'r gwasanaeth gadarnhau bod cyfeiriad yn un swyddogol y dylid ei ddefnyddio.**

## 4.5 Nodi strydoedd newydd a phresennol


4.5.1 Y stryd sy'n cael ei chynnwys mewn cyfeiriad eiddo yw'r stryd lle y ceir mynediad i'r drws ffrynt neu'r brif fynedfa. Os bydd mynediad i eiddo newydd ar stryd sy'n bodoli eisoes, bydd yn cael ei enwi neu ei rifo ar y stryd honno.

4.5.2 Mae Ffigur 4.5.2 yn dangos eiddo newydd y gellir cael mynediad atynt ar strydoedd newydd a strydoedd presennol, ac mae'n dangos ar ba stryd y bydd yr eiddo yn cael ei enwi neu ei rifo:




**Ffigur 1 - Lleiniau newydd ar strydoedd presennol a newydd - mynediad o stryd bresennol**

4.5.3 Lle y ceir mynediad at ddrws ffrynt llain newydd o stryd newydd, a lle bo'r mynediad amgen/tramwyfa o stryd bresennol neu i'r gwrthwyneb, bydd yr eiddo'n cael ei enwi/rhifo ar y ffordd lle y ceir mynediad at y drws ffrynt:




**Ffigur 2 - Lleiniau newydd ar strydoedd presennol a newydd - sawl pwynt mynediad ar wahanol strydoedd**

4.5.4 Felly, mae'n bwysig i geisiadau gael eu hategu gan gynllun sy'n nodi'n glir y brif fynedfa i'r holl eiddo er mwyn llunio cynllun cywir.

4.5.5 **Sylwer mai nod y canllawiau yn y ddogfen hon yw helpu i wneud ceisiadau a datrys problemau cyffredin. Nid yw'n gyfystyr â pholisi a bydd manylion terfynol y cynllun yn ôl disgresiwn y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd.**

4.5.6 Fel rheol, ni fydd amrywiadau i'r canllawiau a roddir yn cael eu derbyn, felly dylid ystyried yn ofalus wrth wneud cais i osgoi siom.


## 4.6 Confensiynau a ddefnyddir ar gyfer strydoedd presennol

## Enwi/rhifo eiddo ar stryd bresennol

4.6.1 Pan fydd blaenau lleiniau newydd ar stryd bresennol, bydd y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd yn asesu'r cais ac yn penderfynu a fydd y lleiniau newydd yn cael eu cynnwys o fewn unrhyw gynllun rhifo ar y stryd honno neu a fydd enwau'n cael eu rhoi iddynt.


## Lleiniau newydd ar stryd bresennol sydd â rhifau

4.6.2 Os bydd blaenau lleiniau ar stryd bresennol sydd â rhifau, bydd rhifau yn cael eu neilltuo i'r eiddo newydd allan o ddewis. Caiff eiddo newydd eu rhifo drwy ddefnyddio bylchau yn y system rifo os yw'n bosibl:





**Ffigur 3 - Lleiniau newydd sy'n defnyddio rhifau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y system**

4.6.3 Lle nad oes modd defnyddio bylchau yn y system rifo bresennol, bydd datblygiad o hyd at bedair llain yn cael llythrennau a-d wedi'u hategu ar ôl y rhif blaenorol:





**Ffigur 4 - Lleiniau newydd sy'n defnyddio rhifau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y system**

4.6.4 Bydd **datblygiadau mewnlenwi** (eiddo newydd a adeiledir rhwng eiddo presennol neu ar safle eiddo presennol) ar stryd sydd â rhifau yn cael yr un rhif â'r eiddo cyn neu ar ôl yr eiddo mewnlenwi mewn amgylchiadau priodol (h.y. pan fydd yr eiddo mewnlenwi cyn Rhif 1 ar stryd sydd â rhifau) gydag ôl-ddodiad o 'A', 'B' ac ati e.e.: 3A, 3B.




**Ffigur 5 - Lleiniau newydd sy'n defnyddio rhifau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y system rifo bresennol**

4.6.5 Os nad yw'n ymarferol i ychwanegu ôl-ddodiad at y rhif, bydd y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd yn caniatáu i enwau tai gael eu defnyddio:





**Ffigur 6 - Lleiniau newydd wedi'u henwi ar stryd bresennol lle nad yw rhifo'n ymarferol**

# Lleiniau newydd ar stryd bresennol sydd ag enwau

4.6.6 Os nad oes cynllun rhifo wedi'i fabwysiadu ar stryd, bydd gan yr eiddo ar y stryd honno enw swyddogol fel rhan o'u cyfeiriad.

4.6.7 Os nad oes trefn rhifo eiddo ar waith, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, bydd yn briodol neilltuo enwau eiddo y cytunir arnynt, ond bydd yr holl enwau eiddo a gymeradwyir yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r enw stryd swyddogol agosaf er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i'r eiddo'n gyflym.




**Ffigur 7 - Lleiniau newydd wedi'u henwi ar stryd bresennol lle nad oes rhifau**

## Enwi stryd ddi-enw bresennol


4.6.8 Bydd strydoedd dienw ond yn cael eu henwi pan fydd perchennog eiddo ar y stryd yn gofyn (ac yn awgrymu enw), oherwydd diffyg enw sy'n achosi oedi yn y Gwasanaethau Brys sy'n lleoli'r stryd. Bydd angen i'r preswylydd gyflwyno hyn i'w Gyngor Cymuned/Tref, a fydd yn anfon y cais a'r ffurflen gais wedi'i chwblhau i ni yn y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd.

# 4.7 Confensiynau a ddefnyddir ar gyfer strydoedd newydd

4.71. Bydd eiddo newydd y ceir mynediad iddynt o stryd newydd bob amser wedi'i rifo. Dyma'r confensiynau safonol ar gyfer rhifo strydoedd newydd:


Odrifau ar y chwith ac eilrifau ar y dde o'r dechrau i'r diwedd, neu i'r gwrthwyneb, os oes problem o ran eiddo ar strydoedd cyfagos a dyblygu rhifau.

Bydd y confensiwn hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio os oes posibilrwydd y bydd y safle yn cael ei ymestyn yn y dyfodol.




**Ffigur 8 – Rhifo ar hyd stryd newydd**


Mae mân ffyrdd wedi'u rhifo yn esgyn o'r brif ffordd:




**Ffigur 9 – Rhifo ar hyd mân ffordd**

Mewn datblygiadau bach gellir dyrannu'r rhifau yn ddilynol yn ôl disgresiwn y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd.

Bydd ffyrdd pengaead preswyl a datblygiadau ar raddfa fach yn cael ei rifo'n ddilynol i gyfeiriad clocwedd. Bydd datblygiad ffyrdd pengaead preswyl hirach unwaith eto yn cael ei rifo fel y nodir uchod.





**Ffigwr 10 – Rhifo yn ddilynol**

# 5. Proses Gwneud Cais

## 5.1 Enw stryd newydd

Datblygiadau Newydd: ceisiadau **y mae angen enw stryd newydd arnynt**




**Ffigwr 11 - Proses lle mae <u>enw stryd newydd</u> yn cael ei**


5.1.1 Bydd angen cyfeiriad swyddogol llawn ar bob llain sydd ar ddatblygiad newydd. Pan fydd safle wedi ei brynu, ac mae caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad wedi'i roi, bydd angen cais er mwyn darparu cynllun enwi a rhifo.

5.1.2 I wneud cais gallwch lawrlwytho'r ffurflen berthnasol ar-lein drwy fynd i [www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/enwi-a-rhifo-strydoedd.](www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/enwi-a-rhifo-strydoedd) Ar gyfer **datblygiad newydd sydd HEB enw[au]stryd newydd**, dylech gwblhau'r ffurflen **SNN3**. Os oes **angen <u>enw[au] stryd NEWYDD</u> ar y datblygiad newydd**, llenwch y ffurflen **SNN4** a'i dychwelyd atom gyda'r ffi briodol.

5.1.3 Yr **amserlen** ar gyfer cais lle mae enw stryd newydd yn cael ei greu yw **tua 6-9 wythnos**, ar yr amod bod y cynnig yn briodol ac yn cael ei dderbyn. Sylwch y bydd oedi yn yr amserlen hon os caiff y cynigion cychwynnol eu gwrthod neu os caiff yr ymgynghoriad cyhoeddus ei wrthwynebu.

## 5.2 Cynigion nad ydynt yn ymwneud ag enw stryd newydd

5.2.1 Mae ceisiadau lle NAD oes enw stryd newydd yn cael ei greu yn destun proses wahanol nad yw'n cynnwys ymgynghori â Chynghorwyr Sir na Chynghorau Tref a Chymuned. Gall cynigion o'r fath gynnwys newid enw tŷ, enwi neu rifo eiddo newydd, addasiadau i eiddo ac ati.




**Ffigwr 12 - Proses lle NAD yw enw stryd newydd yn cael ei greu**

5.2.2 **Yr amserlen ar gyfer cais lle NAD yw enw stryd newydd yn cael ei greu yw tua 14 diwrnod gwaith os caiff y cynnig ei dderbyn.** Sylwch y bydd oedi o ran yr amserlen hon os caiff y cynigion cychwynnol eu gwrthod gan y bydd angen darparu dewisiadau amgen. Felly mae'n bwysig nodi'r canllawiau ar ddewis enw / rhif addas a darparu cynifer o gynigion â phosibl.

## 5.3 Enwi eiddo presennol

5.3.1 I **wneud cais** am **newid neu i ychwanegu enw eiddo at breswylfa bresennol**, dylech lenwi'r ffurflen **SNN1** a'i dychwelyd atom gyda'r ffi briodol. ***Sylwch:*** *i ychwanegu cyfeiriad newydd at eiddo newydd defnyddiwch y ffurflen* ***SNN2***

5.3.2 Caniateir dyrannu enw eiddo ond pan fydd cynllun rhifo presennol ar waith, bydd yr enw yn ychwanegol at y rhif hwnnw ac ni fydd yn cymryd ei le. Yn achos eiddo sydd ar stryd lle mae cynllun rhifo eisoes ar waith, nid oes modd newid i enw yn unig.

## 5.4 Cyfeiriad newydd ar gyfer eiddo newydd sengl

5.4.1 I **wneud cais** am **gyfeiriad newydd ar gyfer un eiddo newydd**, dylech lenwi'r ffurflen **SNN2** a'i dychwelyd atom gyda'r ffi briodol. ***Sylwch:*** *i gael cyfeiriad newydd wedi'i greu ar gyfer mwy nag un eiddo, defnyddiwch y ffurflen* ***SNN3.***


## 5.5 Dewis enw newydd addas

5.5.1 Ni fydd y mathau canlynol o awgrymiadau yn cael eu derbyn gennym ni:

- Enwau sydd eisoes yn bodoli mewn mannau eraill yn y plwyf/tref neu ardal gan fod hyn yn creu dryswch.
- Enwau sy'n debyg i rai sydd eisoes yn bodoli.
- Enwau amhriodol, atgas, neu sarhaus.
- Enwau y mae modd eu camddehongli'n fwriadol.
- Enwau newydd sy'n arwain at ddileu enw presennol sydd ag arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig

5.5.2 Mae'r awdurdod yn annog pob deiliaid eiddo i ddilyn y canllawiau hyn i gynnal safon dda o'r system enwi a rhifo strydoedd a chaniatáu i eiddo gael eu canfod yn rhwydd. Rydym yn gofyn, os yw'n bosibl, eich bod yn darparu dewisiadau amgen i'r enw newydd a ffefrir gennych gan y bydd hyn yn cynorthwyo'r broses ymgeisio.

5.5.3 Argymhellir nad ydych yn prynu nac yn archebu arwydd newydd i'r tŷ hyd nes bod y cyfeiriad swyddogol wedi'i gadarnhau gan y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd gan ei bod yn bosibl y caiff yr enw ei wrthod.



## 5.6 Perchnogaeth eiddo

5.6.1 Byddwn yn derbyn ceisiadau am ailenwi os mai chi yw perchennog yr eiddo. Os mai chi yw'r lesddeiliad, y tenant, y deiliaid neu un o sawl deiliad, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr eiddo gan roi ei ganiatâd i'r eiddo gael ei ailenwi. Pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen gais, rydych yn cadarnhau bod gennych yr hawl gyfreithiol i ofyn am ailenwi. Bydd angen cyflwyno unrhyw gydsyniad sy'n ofynnol ar yr un pryd y caiff y cais ei gyflwyno.

## 5.7 Dechrau defnyddio cyfeiriadau newydd

5.7.1 Pan fydd preswylfa newydd wedi'i henwi neu/a'i rhifo, ond nid yw'r eiddo wedi ei gwblhau eto, mae'r cyfeiriad sy'n cael ei greu yn un 'dros dro'. Rhennir y manylion gyda'r Post Brenhinol sy'n cadw'r cyfeiriadau hyn ar eu cronfa ddata 'heb eu hadeiladu eto' (**NYB**). Mae hyn er mwyn osgoi'r broblem o bost yn cael ei anfon allan i eiddo nad ydynt yn bodoli eisoes ar safle adeiladu. Rydym yn rhoi gwybod i gyrff statudol ar y cam hwn felly maent yn ymwybodol o'r cyfeiriad newydd.

5.7.2 Unwaith y bydd yr eiddo o fewn 6 wythnos i'w gwblhau, dylai'r perchnogion gysylltu â'n his-adran Enwi a Rhifo Strydoedd a gofyn i'r cyfeiriad ddechrau gael ei ddefnyddio. Cysylltir â'r Post Brenhinol a gofynnir iddynt symud y cyfeiriad o'r gronfa ddata 'Heb eu hadeiladu eto' i'r gronfa ddata 'Ffeil Cyfeiriad Côd Post' (**PAF**) gan ei wneud ar gael i'w ddefnyddio'n gyffredinol. Rhoddir gwybod i'r cyrff statudol eto gan ddweud bod y cyfeiriadau bellach yn weithredol.

## 5.8 Newid llunwedd datblygiad

5.8.1 I **wneud cais** am **Newid llunwedd datblygiad** ar ôl y cytunwyd ar ddilyniant rhifo, dylech lenwi'r ffurflen **SNN6**.

5.8.2 Lle mae cynllun enwi a rhifo stryd wedi'i greu ac mae datblygwr yn newid y llunwedd, bydd angen paratoi cynllun diwygiedig. Yn ar achos hwn bydd angen asesu a chytuno ar y taliadau cyn gwneud y cais ffurfiol.

5.8.3 Bydd y tâl yn seiliedig ar hyd a lled y diwygiad a swm y gwaith pellach sydd i'w wneud. Gweler graddfa'r taliadau ar dudalen 8.

## 5.9 Addasu ysgubor, tŷ allan neu adeilad adfeiliedig

5.9.1 I **wneud cais** am addasu **un** ysgubor / tŷ allan neu adeilad adfeiliedig dylech lenwi'r ffurflen **SNN2**. I addasu **nifer** o adeiladau, dylech lenwi'r ffurflen **SNN3** a'i dychwelyd atom gyda'r ffi briodol.

5.9.2 Caniateir dyrannu enw eiddo i addasiad ysgubor/tŷ allan ond ni ddylai'r enw gael ei ddefnyddio eisoes gan unrhyw eiddo arall, nac yn swnio'n debyg i unrhyw eiddo arall yn yr ardal (tref bost ee: Rhydaman - SA18). Bydd gwiriad yn cael ei gynnal ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno. Ni dderbynnir enwau sy'n swnio'n hiliol, anweddus neu sy'n agored i gamddehongli. Fe'i hystyrir yn arfer da i gynnig enwau sydd â chysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol â'r eiddo neu'r ardal.

## Addasu ysgubor / tŷ allan ar fferm

5.9.3 Bydd enw'r fferm/eiddo y mae'r addasiad ysgubor/tŷ allan wedi'i leoli yn cael ei gynnwys yng nghyfeiriad yr ysgubor oherwydd y mynediad a rennir. Dim ond os oes gan yr addasiad ysgubor/tŷ allan ei fynediad ei hun, ar wahân i'r fferm/eiddo, fydd enw'r fferm/eiddo yn cael ei hepgor o'r cyfeiriad.

5.9.4 Gellir datblygu cynllun rhifo os yw mwy nag un ysgubor/tŷ allan ar fferm/eiddo yn cael ei ddatblygu.

## Adeiladau adfeiliedig

5.9.5 Caniateir dyrannu enw eiddo i adeilad adfeiliedig wedi'i ddatblygu os nad yw'r stryd sy'n rhoi mynediad iddo wedi'i rhifo. Os oes cynllun rhifo gan y stryd sy'n rhoi mynediad iddo, bydd yr eiddo datblygedig yn cael ei gynnwys yn y cynllun rhifo hwnnw lle bo hynny'n briodol.

## 5.10 Anecsau

5.10.1 I **wneud cais** am **Anecs** newydd gael ei gyfeiriad ei hun, dylech lenwi'r ffurflen **SNN2**.

5.10.2 Bydd anecsau i adeiladau e.e.: fflat mam-gu neu lety ategol yn dechrau ag 'Anecs'. Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r eiddo rhiant ee: Anecs, 1 Stryd Fawr.

## 5.11 Tir, stablau, tyddynnod, rhandiroedd, a thyddynnod heb breswylfa

5.11.1 Nid yw'r Post Brenhinol yn ychwanegu darn o dir dim ond ar gyfer darparu gwasanaethau neu ddanfon nwyddau, hyd yn oed os yw blwch post yn cael ei roi ar y safle. Mae'n rhaid iddo naill ai fod yn gyfeiriad preswyl neu'n gyfeiriad busnes [gydag enw masnachu], gydag eiddo busnes ar y safle wedi ei staffio yn ystod oriau gwaith arferol.

5.11.2 Bydd angen i'r perchnogion dderbyn nwyddau / gwasanaethau gyda'r cwmnïau dan sylw.

## 5.12 Addasu eiddo yn fflatiau neu'n unedau

5.12.1 I **wneud cais** am **floc fflatiau newydd** neu **addasu eiddo yn Fflatiau neu'n Unedau**, dylech lenwi'r ffurflen **SNN5**. I greu bloc fflatiau neu unedau newydd **gydag enw stryd newydd**, dylech lenwi'r ffurflen **SNN4** a'i dychwelyd atom gyda'r ffi briodol.

**Enwi / Rhifo**

5.12.2 Fel arfer mae fflatiau/unedau wedi'u rhifo ar y ffordd lle mae'r brif fynedfa wedi'i lleoli oni bai eu bod yn adeiladau tal neu sylweddol. Mae'n bwysig wrth wneud cais bod y brif fynedfa yn cael ei dangos yn glir ynghyd â'r nifer o fflatiau sydd yn yr adeilad er mwyn gallu rhifo'r cynllun yn gywir. Dylai eiddo mewnol unigol o fewn adeilad gael ei rifo ar wahân.

5.12.3 Dylai'r rhifau o fewn adeiladau ddechrau ar y pwynt isaf, gan olygu mai rhif 1 yw'r eiddo cyntaf ar y chwith wrth fynd i mewn i'r llawr isaf. Dylai rhifo barhau'n glocwedd ac i fyny.

5.12.4 Bydd defnydd o'r gair 'fflat' yn berthnasol i'r eiddo hynny lle mae llety ar un llawr o adeilad yn unig. Lle mae dau lawr neu fwy mewn llety preswyl ac mae ganddo ei risiau mewnol ei hun bydd y term 'rhandy' yn cael ei ddefnyddio.

5.12.5 Gellir rhoi enw i flociau sydd ond yn cynnwys fflatiau a rhandai, ond bydd pob fflat neu randy unigol yn cael ei rifo yn ddilynol. Ni fydd angen ymgynghori â Chynghorwyr Lleol na Chynghorau Tref/Cymuned ar yr enw hwn.

5.12.6 Ni fydd adeiladau sydd wedi'u haddasu'n fflatiau/unedau uwchben safle masnachol yn cael enw a bydd yn defnyddio'r rhifau o'r safle ar y llawr gwaelod, gweler enghraifft:
'Fflat 1, 10-12 Y Stryd Fawr' neu
'Rhandy 1, 10-12 Y Stryd Fawr'

5.12.7 Yn ddelfrydol, dylai holl enwau'r blociau datblygu sydd newydd gael eu cynnig gynnwys un o'r canlynol:

- Cwrt or Llys [Cwrt]
- Tŷ [House]
- Penrhyn or Pwynt [Point]
- Tŵr [Tower]
- Porthdy [Lodge]
- Fflatiau [Apartments]
- Plastai [Mansions]
- Bannau [Heights]

5.12.8 Ar gyfer unrhyw breswylfa sydd â mynediad mewnol drwy safle masnachol, rhoddir enw i'r llety sy'n cyd-fynd â'r math o lety ee: fflat. Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r eiddo rhiant, e.e.: lle mae fflat uwchben tafarn â mynediad mewnol yn unig, ei gyfeiriad fydd Fflat, Enw'r Dafarn, Rhif Eiddo ac Enw Stryd.

## 5.13 Addasu neu isrannu eiddo

5.13.1 Yn achos eiddo preswyl sydd wedi'i addasu neu ei isrannu, ag **un pwynt mynediad** yn unig sy'n cynnig mynediad i'r holl fflatiau, bydd yn cael ei **rifo** yn hytrach na'i ddisgrifio na'i lythrennu h.y.: Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf na Fflat A.

5.13.2 Yn achos eiddo preswyl sydd wedi'i addasu neu ei isrannu, â **sawl pwynt mynediad,** lle mae pob fflat â'i ddrws ffrynt ei hun ar wahân ac oddi ar y stryd, bydd yn cynnwys llythyren yn ychwanegol at gyfeiriad y prif adeilad h.y. 'A', 'B', 'C' ac ati (24A, 24B, 24C ayyb).

5.13.3 Bydd eiddo cyfun yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol lle defnyddir rhifau safle. Er enghraifft, bydd uno dau eiddo yn 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Ystad Fasnachu ac Uned 2 Ystad Fasnachu yn arwain at gyfeiriadau newydd o 4-6 Stryd Fawr ac Uned 1-2 Ystad Fasnachu.

## 5.14 Eiddo Masnachol

5.14.1 I **wneud cais** i greu unedau masnachol newydd, **heb** enw stryd newydd, dylech lenwi'r ffurflen **SNN3**. Er mwyn creu Unedau masnachol newydd **gydag enw stryd newydd**, dylech lenwi'r ffurflen **SNN4** a'i dychwelyd atom gyda'r ffi briodol.

5.14.2 Yn ddelfrydol, dylai eiddo masnachol sy'n cynnwys nifer o swyddfeydd, ystafelloedd neu unedau sicrhau bod pob swyddfa, ystafell neu uned yn cael ei nodi'n unigryw gan gynllun rhifo (e.e.: Ystafell 1 / Ystafell 2 ac ati, a lle mae'n addas gan ei lleoliad o fewn yr adeilad (e.e. Ystafell 1, Llawr gwaelod / Ystafell 5, Llawr Cyntaf ac ati).

5.14.3 Dylid nodi bod enwau ar gyfer Canolfannau Siopa, Parciau Adwerthu ac Ystadau Diwydiannol yn ddarostyngedig i'r un egwyddorion ag enwau strydoedd sydd wedi'u nodi yn adran 4 uchod. **Argymhellir cysylltu â'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn ystod cam cynnar o ddatblygiad fel y gellir cytuno ar gynlluniau enwi a rhifo cyn dechrau marchnata.**

5.14.4 Bydd fersiwn Gymraeg yn cael ei nodi ar bob cyfeiriad ac mae hyn yn cynnwys unedau o fewn ystad ddiwydiannol er enghraifft. Bydd y geiriau ar y dechrau yn cael eu cyfieithu yn ogystal â'r llythrennau ar y diwedd. Bydd y llythrennau'n cael eu cyfieithu ond heb eu defnyddio mewn dilyniant; felly, bydd Uned 1D yn cael ei gyfieithu i Uned 1D yn hytrach na dilyn trefn yr Wyddor Gymraeg a defnyddio 1CH.

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| Unit 1A | Uned 1A |
| Unit 1B | Uned 1B |
| Unit 1C | Uned 1C |
| Unit 1D | Uned 1D |

**Canolfannau Siopa, Parciau Adwerthu, ac Ystadau Diwydiannol**

5.14.5 Er mwyn lleihau aflonyddwch a dryswch, dylai cyfeiriad pob eiddo masnachol, fod yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ail-ddefnyddio gan ba bynnag fusnes neu sefydliad sy'n meddiannu'r eiddo. Dylid dyrannu rhifau uned a fydd yn aros yn gyson pa bynnag gwmni sy'n meddiannu'r safle. Dylai rhif yr uned gael ei arddangos yn amlwg ar bob adeilad.

**Canolfannau Siopa:**

5.14.6 Bydd enw yn cael ei roi i'r adeilad sy'n gartref i ganolfan siopa dan do. Bydd angen ei rhif unigryw ei hun ar bob siop neu uned o fewn yr adeilad a'r stryd sy'n rhoi'r prif fynediad i'r adeilad fydd y stryd a ddefnyddir yn y cyfeiriad e.e.:

- Uned 1 Yr Arcêd, Stryd y Coleg, Rhydaman, SA18 2LN
- Uned 2 Yr Arcêd, Stryd y Coleg, Rhydaman, SA18 2LN

**Parciau Adwerthu (Rhodfeydd Siopa Awyr Agored):**

5.14.7 Bydd enw yn cael ei roi i'r parc neu'r rhodfa. Bydd angen ei rhif unigryw ei hun ar bob siop neu uned o fewn y parc. Y stryd sy'n rhoi'r prif fynediad i'r parc neu'r rhodfa fydd y stryd a ddefnyddir yn y cyfeiriad, ond mae'n bosibl y bydd mynediad i rai siopau neu unedau o stryd wahanol a'r stryd honno fydd yn cael ei defnyddio yn y cyfeiriadau ar gyfer y siopau neu'r unedau hynny. Bydd y cynllun rhifo yn cael ei ddefnyddio yn y parc neu'r rhodfa fel un endid waeth pa stryd sy'n rhoi mynediad i'r unedau e.e.

- Uned 1, Parc Adwerthu Trostre, Llanelli, SA14 9UY
- Uned 2, Parc Adwerthu Trostre, Llanelli, SA14 9UY

**Ystadau Diwydiannol:**

5.14.8 Pan fo'n briodol, gellir rhoi enw i ystad ddiwydiannol. Bydd angen ei rhif unigryw ei hun ar bob uned neu iard. Os oes mynediad uniongyrchol i'r holl unedau o'r un stryd, bydd y cynllun rhifo yn seiliedig ar yr ystad ddiwydiannol fel endid unigol a'r stryd sy'n rhoi mynediad i'r ystad fydd y stryd a ddefnyddir yn y cyfeiriad e.e.:

- Uned 1 Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman SA18 3SJ UNED
- Uned 2 Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman SA18 3SJ UNED

5.14.9 Fodd bynnag, os yw'r ystad yn cynnwys mwy nag un stryd, ac mae angen enwau ar y strydoedd hyn, bydd yr unedau neu'r iardiau'n cael eu rhifo ar y stryd sy'n rhoi mynediad iddynt. Os ystyrir o hyd ei bod yn briodol rhoi ei enw ei hun i'r ystad ddiwydiannol bydd yr enw yn cael ei drin fel ardal e.e.:

- Uned 1, Gweithdai Llanelli, Parc Adwerthu Trostre, Llanelli, SA14 9UU
- Uned 2, Gweithdai Llanelli, Parc Adwerthu Trostre, Llanelli, SA14 9UU

- Uned 1, Gweithdai Glanaman, Heol y Tabernacl, Glanaman, Rhydaman
- Uned 2, Gweithdai Glanaman, Heol y Tabernacl, Glanaman, Rhydaman

## 5.15 Ailenwi stryd ar gais preswylydd

5.15.1 I **wneud cais** am **ailenwi stryd ar gais preswylydd,** dylech lenwi'r ffurflen **SNN7**.

5.15.2 Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried ceisiadau rhesymol ar gyfer ailenwi strydoedd. Fodd bynnag, pwysleisir bod rhaid i gyngor cymuned neu dref wneud cais. I breswylwyr, mae'r cais i'w wneud i'r cyngor cymuned neu dref yn y lle cyntaf, a gall y math o gais gychwyn proses ymgynghori gan y Post Brenhinol.

5.15.3 Dim ond os gellir dangos yr ymgynghorwyd yn ysgrifenedig â'r holl berchnogion a phreswylwyr yr effeithiwyd arnynt ar y stryd ac mae **POB UN** yn cytuno â'r newid arfaethedig y bydd ceisiadau o'r math hwn yn cael eu hystyried. Pan fydd y newid yn cael ei gymeradwyo bydd y cyngor cymuned/tref yn gyfrifol am gostau pob arwydd enw stryd newydd ac unrhyw hysbysiadau.

5.15.4 Yn achlysurol, gall y Cyngor benderfynu bod angen ailenwi stryd. Yn yr amgylchiadau hwn bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r holl breswylwyr am y newid arfaethedig ac yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r newid lle bo angen.

## 5.16 Ystyriaethau eraill ac ymholiadau cyffredin

5.16.1 Lle mae preswylydd eiddo **yn ansicr o ran y cyfeiriad swyddogol,** gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd i roi copi o'r cyfeiriad swyddogol. Y Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd yw'r unig adain yn y cyngor sy'n gallu cadarnhau'r cyfeiriad swyddogol.

5.16.2 **Nid yw'r Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd yn delio ag ymholiadau eraill sy'n gysylltiedig â ffyrdd ac arwyddion cyfeiriad stryd.** Cyfrifoldeb adran priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin a, lle bo hynny'n berthnasol, Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) yw cynnal a chadw priffyrdd ac arwyddion priffyrdd.

## 5.17 Hysbysiad o gyfeiriad newydd neu gyfeiriad wedi'i newid i bartneriaid mewnol ac allanol

5.17.1 Mae'r Gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd yn rhoi gwybod i'r sefydliadau canlynol am gyfeiriad newydd neu gyfeiriad sydd wedi'i newid yn awtomatig:

- Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir Caerfyrddin
- Trethi ac Ardrethi Busnes Cyngor Sir Caerfyrddin
- Gwarchodwr Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin
- Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin
- Ailgylchu Gwastraff Cyngor Sir Caerfyrddin
- Gwastraff ac Amgylcheddol Cyngor Sir Gâr
- Transco Nwy Prydain*
- BT Openreach*
- Dŵr Cymru*
- Y Gwasanaethau Brys
- Y Gofrestrfa Tir
- Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Arolwg Ordnans
- Awdurdod yr Heddlu
- Y Post Brenhinol
- Y Swyddfa Brisio
- Wales & West Utilities*

* Rhoddir gwybod i'r sefydliadau hyn gan eu bod yn gyfrifol am isadeiledd rhwydwaith.

5.17.2 Ar gyfer cyflenwadau a biliau, a phob cyswllt personol arall megis banciau, meddygon ac ati, bydd angen i'r ymgeisydd roi hysbysiad ar wahân.

## ATODIAD 1 - Deddfwriaeth

**Rhifo Strydoedd - Deddfwriaeth**

Mae'r ddeddfwriaeth enwi strydoedd sy'n cynnwys Cymru a Lloegr (ac eithrio Llundain) wedi'i chynnwys yn:

- Adran 64 a 65 Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847
- Adran 160 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875
- Adran 21 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1907
- Adran 17, 18 a 19 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925
- Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mabwysiadu'r gweithdrefnau yn ffurfiol o dan Adran 64 a 65 Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 ar gyfer Rhifo Strydoedd.

**Enwi Strydoedd - Deddfwriaeth**

Mae'r ddeddfwriaeth enwi strydoedd sy'n cynnwys Cymru a Lloegr (ac eithrio Llundain) wedi'i chynnwys yn:

- Adran 64 a 65 Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847
- Adran 160 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875
- Adran 21 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1907
- Adran 17, 18 a 19 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925
- Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mabwysiadu'r gweithdrefnau yn ffurfiol o dan Adran 17, 18 ac 19 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 ar gyfer Enwi Strydoedd.

## ATODIAD 2 - Cynllun Dirprwyo

O dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor, mae gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd (o fewn portffolio'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd) rym i gymeradwyo'r canlynol:

- **Enwi ffyrdd** – rhoi enw ffordd i ffordd newydd neu ffordd bresennol sydd heb unrhyw enw (adrannau 17-19 a 76 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925). Lle bo'n briodol bydd yr Is-adran Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo yn ymgynghori â'r Cyngor Tref neu Blwyf perthnasol ar gyfer awgrymiadau o enwau ffyrdd.

- **Rhifo eiddo** – darparu rhifau i leiniau, datblygiadau mewnlenwi (eiddo wedi'u hadeiladu rhwng tai presennol neu ar dir tai presennol), addasiadau eiddo ac adeiladau masnachol (adrannau 64 a 65 Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 wedi'i hymgorffori yn a160 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 ar gyfer ardaloedd trefol a phŵer llesiant o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer ardaloedd gwledig.

# ATODIAD 3 - Arwyddion Stryd

O dan Ddeddf 1925, mae dyletswydd ar Gyngor Sir Gaerfyrddin i enwi, a chynnal a chadw arwyddion stryd, waeth p'un a ydynt yn strydoedd preifat neu'n cael eu cynnal a'u cadw'n gyhoeddus.

Mae adran 19 o Ddeddf 1925 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau fynnu y bydd enw pob stryd yn cael ei ddangos yn amlwg ac, hefyd yn ei newid neu ei adnewyddu os yw'n dod yn annarllenadwy am unrhyw reswm.

Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i dynnu arwydd stryd i lawr neu waredu arwydd stryd, sydd wedi'i osod yn gyfreithlon, neu i osod hysbysiad neu hysbyseb yn agos i'r arwydd. Gall unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn euog o dorri'r gofynion hyn fod yn agored i ddirwy a osodwyd gan Lys Ynadon

Mae'r deddfau hyn hefyd yn rhoi'r gallu i ni lunio rheoliadau ynghylch codi arwyddion ar gyfer enwau strydoedd cyhoeddus a sicrhau bod enwau a rhifau yr holl adeiladau'n cael eu harddangos gan eu perchnogion yn unol â'r rheoliadau hyn.

**Arwyddion Stryd**

I gael manylion pellach am enwau strydoedd, cysylltwch â'n Hadran Briffyrdd.